# 21. Nadolig y Preseb

Gweddi: Helpa ni'n awr, O! Dad, i blygu a gwrando ar y geiriau a'r neges, a helpa ni i wneud ein hunain yn barod i roi'r neges honno ar waith yn ein bywydau y Nadolig hwn. Er mwyn Iesu Grist. Amen.

Carol: 'Wele yn y preseb tlawd', *Clychau'r Nadolig.*

Darllen: 'Y Doethion o'r Dwyrain', t. 362–363 *Y Beibl Lliw*,
'Ffoi i'r Aifft', t. 365.

Gweddi: Diolch i ti, O! Arglwyd, am gael mwynhau tymor y Nadolig eto gyda'n gilydd. Cofio pen-blwydd Iesu Grist yr ydym a byddwn bob amser wrth gofio pen-blwydd yn hoffi rhoi anrheg i'n cyfeillion. Mae llawer ohonom yn derbyn llawer o anrhegion dros y Nadolig. Gawn ni ofyn i ni ein hunain beth allwn ni ei roi i Iesu Grist yn anrheg y Nadolig hwn? Rhoi ein hamser a'n doniau i sôn am y geni ym Methlehem, rhoi o'n hadnoddau fel y bydd Nadolig rhywun llai ffodus na ni yn un pleserus hefyd. Cofiwn fod Iesu Grist wedi dod yn fabi bach i'r byd i'n caru ni, a gweddïwn y gallwn ni garu ein gilydd trwyddo ef yn well. Gweddïwn y bydd yr ewyllys da a'r tangnefedd y clywodd y bugeiliaid sôn amdano gan yr angel ar y maes yn dod i feysydd ein byd ni sydd â sŵn rhyfel o'u cwmpas yn awr, ac y bydd tangnefedd i ddynion ac ewyllys da ym mhob man. Gweddïwn am fod yn blant a phobl y bydd neges y Nadolig yn rhan o'n bywyd ni ac y byddwn yn mynd ymlaen i'r flwyddyn newydd yn ceisio gwneud dy ewyllys di yn Iesu Grist. Helpa ni i ddod dros ein hanawsterau a gwna ni'n wir ddisgyblion i Iesu Grist. Er mwyn ei enw. Amen.

Arweinydd: Y mae hanes y Nadolig yn gyfarwydd iawn i ni a byddwn yn cofio bob blwyddyn wrth chwarae pasiant y Nadolig am gymeriadau cyfarwydd fel y doethion a ddaeth o'r dwyrain, y bugeiliaid a Herod a'i filwyr cas, ac am garedigrwydd gŵr y llety. Ond tybed a ydym yn cofio digon am yr anifeiliaid a phethau eraill a chwaraeodd eu rhan yn hanes geni Iesu Grist? Beth fyddai wedi digwydd i'r doethion pe bai'r seren heb eu harwain ar hyd yr anialwch? A sut fydden nhw wedi teithio heb eu camelod? Pan gyrhaeddodd Mair a Joseff Fethlehem, bu'r ychen a'r asyn yn garedig iawn yn rhoi eu lle i'r baban bach Iesu gael ei eni. Ac rwy'n siŵr fod gwlân yr oen bach a roddodd y bugeiliaid yn anrheg a phlu'r golomen fach a gysgai uwch ei ben wedi gwneud y preseb yn llawer mwy clyd i'r Iesu. Yn y gwasanaeth bach yma rydym am roi sylw i'r creaduriaid a'r seren, ac yn arbennig i un pry copyn bach a wnaeth, yn ôl yr hanes, bopeth i wneud bywyd Iesu Grist ar ôl iddo gael ei eni yn esmwyth, ac yn ôl pob tebyg a achubodd ei fywyd hefyd. Ond fe gawn ni ganu carol fechan i ddechrau.

Carol: 'Pa mor bell yw Bethlem dref?', *Clychau'r Nadolig.*

Arweinydd: Y peth cyntaf a wnaeth i'r doethion feddwl bod Iesu Grist wedi ei eni oedd gweld seren. Adeg y Nadolig y mae'r sêr i'w gweld yn glir yn yr awyr. Tybed a oedd un o'r sêr a welwn ni yn yr awyr o gwmpas y Nadolig yn un o'r rheiny a welodd y doethion?

| | |
|---|---|
| Adroddiad: | [*gan unigolyn neu barti bach*]<br>'Seren Nadolig', Clychau'r Nadolig. |
| Carol: | 'Seinier cyrn a chaner clych', *Clychau'r Nadolig*. |
| Arweinydd: | Wedi cyrraedd Bethlehem, fe gofiwch nad oedd lle yn y llety a bu raid i Iesu Grist gael ei eni mewn stabl. Pan welodd yr anifeiliaid y baban bach roedden nhw i gyd yn hapus iawn ac eisiau gwneud popeth i'w helpu. |
| Carol: | 'Carol yr Adar', Clychau'r Nadolig. |
| Arweinydd: | Ond roedd Herod a'i filwyr wedi clywed am eni Iesu Grist ac yn chwilio amdano ym mhob man. Gorfu i Mair a Joseff a'r baban bach ffoi i'r Aifft i osgoi Herod. Ar y ffordd digwyddodd rhywbeth diddorol iawn a chafodd pry copyn gyfle i helpu Iesu Grist. Mae'r arferiad o roi tinsel ar y goeden Nadolig yn arwydd ein bod yn cofio am ei gymwynas fawr. Dyma'r stori: |

DRAMODIG

**GOLYGFA 1**

Mam a merch fach yn addurno coeden Nadolig yng nghornel y llwyfan. Mae'r fam wrthi'n gosod tinsel ar y goeden.

| | |
|---|---|
| Merch: | Pam ein bod ni'n addurno coed adeg y Nadolig, Mam? |
| Mam: | O, mae'n hen arferiad, yn mynd yn ôl cannoedd o flynyddoedd. Wyt ti'n gwybod pam ein bod ni'n rhoi tinsel ar y goeden Nadolig? |
| Merch: | Nac ydw i. Wnewch chi ddweud y stori wrtha i, os gwelwch chi'n dda? |
| Mam: | O'r gorau. Tyrd i eistedd fan hyn ac fe adrodda i'r hanes wrthyt ti. |
| | [*Mae'r ddwy'n eistedd wrth ymyl y goeden. Mae'r llwyfan yn graddol dywyllu a dim ond golau sbot ar y fam a'r ferch yn eu cornel*] |
| Mam: | Wyt ti'n cofio ar ôl i Iesu Grist gael ei eni ym Methlehem, fe geisiodd Herod ddod o hyd iddo a'i ladd, rhag ofn iddo ddod yn frenin yn ei le? |
| Merch: | O ie, rwy'n cofio. Bu'n rhaid i Mair a Joseff ffoi i'r Aifft. |
| Mam: | Do. Ac roedd y daith yn bell ac yn beryglus iawn. A fedren nhw ddim gwneud y siwrne mewn diwrnod. Rhaid oedd aros yn yr anialwch. |
| | [*Golau'n diffodd yn llwyr am rai eiliadau*] |

**GOLYGFA 2**

[*Pan ailoleuir y llwyfan, gwelir Mair a Joseff yn sefyll o flaen ogof. Maent yn dod*

*ymlaen i ganol y llwyfan a golwg flinedig arnyn nhw. Mae'r baban ym mreichiau Mair*]

Mair: O! Joseff, fedra i ddim mynd gam ymhellach heno. Rhaid i ni gael gorffwys.

Joseff: Rhaid wir. Fe orffwyswn ni yn fan hyn. Mae'r hen ogof yma'n oer iawn, ond mi wnaiff y tro. Byddwn yn fwy diogel yma rhag y bwystfilod, a rhag milwyr Herod efallai.

[*Joseff yn gosod blanced ar lawr a Mair yn gosod ei baban arni'n glyd*]

Joseff: Dyna ni. Fe fydd yr Iesu ychydig bach yn esmwythach nawr. Gwell inni beidio â chynnau tân rhag ofn i rywun weld y fflamau.

Mair: O na, paid, rhag ofn y milwyr.

Joseff: Cystal i ninnau gael tipyn bach o gwsg. Mae taith hir o'n blaenau fory.

[*Y ddau'n gorwedd ar y llawr ac yn cysgu. Daw'r pry copyn i mewn a dawnsio i gyfeiliant cerddoriaeth*]

Pry Copyn: Druan o'r baban bach yma. Mae'n sobr o oer yma iddo, ac mae yna wynt main yn dod i mewn i'r ogof ma.

[*Mae'n plygu wrth ben yr Iesu*]

Pry Copyn: Beth fedra i ei wneud i'w helpu? O! Mi wn i. Mi af i ati i greu gwe fawr dros wyneb yr ogof i gadw'r gwynt oer allan.

[*I gyfeiliant cerddoriaeth mae'r Pry Copyn yn symud yn ôl ac ymlaen gan weu gwe o edafedd ar fframwaith a baratowyd o flaen llaw. Wedi gorffen diflanna'r Pry Copyn a thywyllir y llwyfan. Clywir sŵn carnau meirch ac mae'r golau'n codi pan ddaw Canwriad a'i filwyr i mewn*]

Canwriad: A dyma ni ogof. Mae'n siŵr fod y teulu bach yn llechu yma. Dos i mewn i edrych.

[*Daw milwr ymlaen gan dynnu'i gledd. Sylwa ar y we*]

Milwr: Tydw i ddim yn meddwl fod 'na neb i mewn yn yr ogof, syr.

Canwriad: Pam wyt ti'n dweud hynny?

Milwr: Wel, mae yna we pry cop ar ei hwyneb i gyd. Does yna neb wedi bod yma ers amser, mae'n siŵr.

Canwriad: O! Rwyt ti'n iawn. Na, does dim eisiau i ni boeni am fan hyn. Fe awn ni ymlaen i rywle arall.

[*Milwyr yn gadael a'r golau'n diffodd*]

**GOLYGFA 3**

[*Gwelir y fam a'r ferch yn ymyl y goeden fel o'r blaen*]

Merch: Beth ddigwyddodd wedyn, Mam?

Mam: Wel, pan aeth hi'n oer iawn y noson honno, daeth barrug gan ddisgyn yn drwm iawn ar y we. Yn y bore, pan gododd yr haul, roedd y pelydrau'n sgleinio ar y we a'r awel yn ei hysgwyd a'i gwneud fel arian i gyd.

Merch: Ond be sy gan hyn i'w wneud â'r tinsel ar y goeden Nadolig?

Mam: Wel, bob Nadolig rydan ni'n gosod tinsel ar y goeden i gofio am we'r pry copyn bach a achubodd fywyd Iesu Grist amser maith yn ôl.

Merch: O! Rwy'n gweld. Mae'r tinsel yn ein hatgoffa o'r we, ac fel y gallodd y pry copyn bach fod yn help i Iesu Grist i gadw'n gynnes a chadw'i fywyd. Dyna stori dda, Mam, diolch.

[*Ailddechreuant addurno'r goeden, cilia'r golau. Mae'r llenni'n cau*]

Carol: 'Mae'r nos yn ddu', *Clychau'r Nadolig.*

Y Fendith

**DIWEDD**